



**ADRODDIAD GWARIANT
PANEL CYNIGION
LOTERI'R STAFF
2020/21**





CYFLWYNIAD

Mae Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yn rheoli Loteri'r Staff sy'n rhoi cyfle i staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ennill £1,000 bob wythnos yn ogystal â chyfle AM DDIM i gymryd rhan yn y MegaDraw a'r SuperDraw sy'n digwydd ddwywaith y flwyddyn.

I ddathlu 10 mlynedd o waith cael gan Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro i helpu i wella pethau ar gyfer ein staff a'n cleifion, cynhaliwyd SuperMegaDraw, raffl arbennig, a'r cyntaf o'i math, ym mis Tachwedd 2020, a gwnaeth un person Iwcus ennill £20,000!

Mae'n costio £1 yr wythnos i gymryd rhan yn Loteri'r Staff, a chaiff hyn ei ddiynnu'n awtomatig o gyflogres yr unigolyn. Unwaith y byddwch yn rhan o Loteri'r Staff, cewch rif unigryw a chaiff y rhif sy'n ennill ei gynhyrchu ar hap gan gyfrifiadur.

Mae Loteri'r Staff hefyd yn galluogi staff i wneud cais am gyllid drwy Gynllun Llwybr Carlam Loteri'r Staff yr Elusen Iechyd ac wrth Banel Cynigion Loteri'r Staff, sydd wedi dyfarnu grantiau gwerth dros £1.5 miliwn yn ddiweddar i helpu i gefnogi prosiectau niferus ar draws y BIP. Gall y prosiectau hyn amrywio o adnewyddu ystafelloedd staff ac ystafelloedd aros, galluogi staff i fynychu hyfforddiant er mwyn parhau â'u datblygiad personol ac ariannu offer meddygol newydd i fod o fudd i amrywiaeth o gleifion. Gall staff wneud cais am gyllid hyd at £250 drwy'r Cynllun Llwybr Carlam a gellir gwneud cais am gynigion rhwng £250 a £10,000 drwy Banel Cynigion Loteri'r Staff, sy'n cyfarfod deirgwaith y flwyddyn.

Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at ychydig o enghreifftiau yn unig o'r ffyrdd mae Panel Cynigion Loteri'r Staff wedi gwario arian drwy aelodaeth â Loteri'r Staff yn 2020, i gefnogi staff y GIG, cleifion a gwirfoddolwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. O ganlyniad i'r pandemig COVID-19, mae rhai prosiectau a ariannwyd wedi cael eu hatal dros dro hyd nes y bydd gwasanaethau arferol yn aildechrau, a'i bod yn ddiogel ac yn briodol gweithredu'r prosiect.

Patient Benefit

Mae'r enghreifftiau isod yn dangos sut mae'r arian wedi cael ei wario er budd cleifion Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Tiwtoriaid ac Adnoddau Coleg Adfer a Lles Caerdydd a'r Fro



Cardiff and Vale
**Recovery &
Wellbeing College**

Coleg Adfer a Lles Caerdydd a'r Fro, sydd wedi'i leoli yn yr Eglwys Newydd yw'r Coleg Adfer cyntaf i gael ei arwain gan Arweinydd Cyfoedion, ac mae'n ymrwymedig i gyflogi staff sydd â phrofiadau personol o heriau iechyd meddwl.

Canfuwyd bod dysgu cerddoriaeth, ac yn enwedig dysgu i ganu, yn effeithiol wrth alluogi pobl i ddysgu sgiliau trosglwyddadwy a strategaethau fel gwaith anadlu a rheoleiddio emosiynol, sy'n gallu helpu i wella iechyd meddwl a lles pobl. Mae gwneud gweithgareddau mewn grwpiau hefyd yn helpu i feithrin sgiliau cymdeithasol, hyder a hunan-barch.

Darparwyd cyllid i gomisiynu Hyfforddwr Cyfoedion Cyswllt a chanwr proffesiynol â phrofiad o ddarparu cyrsiau i bobl â heriau iechyd meddwl, i greu cwrs wedi'i gyd-gynhyrchu ar gyfer myfyrwyr a staff y coleg. Nid oedd gan y coleg yr arbenigedd gofynnol i ddarparu cwrs canu ar gyfer lles, ond roedd gan y canwr roeddent wedi dewis brofiad blaenrol, ar ôl bod yn gweithio gyda phobl â dementia a chleifion oedd yn gwella o strôc.

Darparwyd cyllid hefyd i alluogi dau diwtor i gydgyhyrchu a darparu cyrsiau iechyd meddwl a lles i staff, gofawyr a defnyddwyr gwasanaethau o fewn y Coleg Adfer. Darparwyd cyllid pellach i gaffael a darparu deunyddiau celf i'w hanfon at fyfyrwyr, gan alluogi cyfranogiad o bell yn ystod y pandemig COVID-19. Caiff y tiwtoriaid, sydd â phrofiad personol o heriau iechyd meddwl, eu paru â gweithiwr iechyd proffesiynol, ac maent yn darparu dau gwrs y gall defnyddwyr gael mynediad atynt o bell naill ai yn yr ysbyty neu o gartref.

Mae'r prosiectau hyn yn arwydd o ymrwymiad y BIP i ymgysylltu, cydweithredu, cyd-gynhyrchu a gwrando ar bobl sydd â phrofiad personol o wasanaethau iechyd meddwl a'u gofawyr. Roedd yr adran yn gobeithio gwella lles ei staff, gofawyr a defnyddwyr gwasanaethau drwy gyfleoedd addysgol gwell, gan alluogi cyfranogwyr i ddysgu sgiliau a gwybodaeth newydd y gellir eu cymhwyso at eu hadferiad eu hunain, yn ogystal ag adferiad eraill. Gallai hefyd gyfrannu'n gadarnhaol at les a chynhyrchiant staff, a bodlonrwydd o ran swydd.

O ganlyniad i gyfyngiadau ynghylch y pandemig COVID-19, mae'r prosiectau hyn wedi cael eu hatal dros dro hyd nes ei bod yn ddiogel ac yn briodol eu gweithredu yn unol â'r canllawiau diweddaraf a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Newid yr Hen Fferyllfa i Ystafell Fflebotomi Cwbl Weithredol



Gwnaeth yr Adran Fflebotomi yn Ysbyty'r Barri waedu 43,204 o gleifion yn 2019 gan wasanaethu'r naw practis meddyg teulu yn y Barri, ynghyd â chleifion ychwanegol drwy'r gwasanaeth cleifion allanol.

Roedd yr hen Ystafell Waedu Fflebotomi bellter cerdded byr o'r Ystafell Aros Fflebotomi ac roedd yn cynnwys dwy gadair waedu. O ganlyniad i'r cyfyngiadau a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig COVID-19, roedd yr ystafell yn rhy fach i ddau waedwr gael gweithio ynddi, felly defnyddiwyd yr Ystafell Waedu Fflebotomi Pediatrig hefyd fel mesur dros dro. Cyn COVID, nodwyd y gofyniad i drydydd gwaedwr gael ymarfer ochr yn ochr â'r ddau waedwr arall, o ganlyniad i'r galw cynyddol am y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oedd yr ystafell bresennol yn ddigon mawr i dri gwaedwr weithio ynddi.

Darparwyd cyllid felly i adleoli'r Ystafell Waedu Fflebotomi i ystafell a oedd yn ddigon mawr i dri gwaedwr gael gweithio ynddi. Gwnaeth hyn helpu i wella boddhad staff a chleifion, lleihau amseroedd aros, a gwella ansawdd gofal cleifion o ganlyniad. Roedd yr ystafell a nodwyd wedi'i lleoli'n union gerllaw'r ystafell aros. Bydd hyn yn helpu i leihau pellter teithio i gleifion, a fydd yn arbennig o fuddiol i gleifion ag anawsterau symudedd, gan wella gofal i gleifion hefyd.

Cypryddau Allanol ar gyfer Diffibriliwyr a Roddwyd

Yn ôl Sefydliad Prydeinig y Galon, bob munud y bydd rhywun yn profi ataliad y galon, heb CPR na mynediad at ddiffibriliwr, bydd ei siawns o oroesi yn lleihau hyd at 10%. Gall arestiad y galon ddigwydd i bobl o unrhyw oedran yn ddirybudd, ac mewn achosion lle defnyddiwyd diffibriliwr ar unwaith, nodwyd cyfraddau goresi hyd at 75%.

Gwnaeth Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, fel rhan o fenter, roi dau beiriant diffibriliwr mynediad cyhoeddus cymunedol i Dîm Adnoddau Cymunedol Caerdydd (CRT).

Rhoddwyd cyllid i gaffael, darparu a gosod dau gwprydd allanol diogel i atal difrod a defnydd amhriodol o'r diffibriliwyr, gan alluogi'r gymuned ehangach i'w defnyddio hefyd yn ôl y gofyn. Byddai'r cypyrddau allanol dur melyn sydd wedi'u platio â sinc a'u gwresogi, ac sydd hefyd yn cynnwys clo â chod i'w hagog, yn cael eu lleoli yn swyddfeydd CRT, un yn yr Eglwys Newydd a'r llall yn Llanrhymni. Byddai darparu mynediad i ddiffibriliwyr yn cefnogi staff y tîm CRT, ymwelwyr a'r gymuned ehangach os bydd rhywun yn profi ataliad y galon ar y safleoedd, neu'n agos atynt, gan wella canlyniadau i gleifion, ac achub bywydau hefyd o bosib.



Gwella Cyfleusterau - CAMHS, Canolfan i Blant Ysbyty Dewi Sant



Ar 8 Ionawr 2020, gwnaeth grŵp o 12 o bobl ifanc wirfoddoli i adolygu'r llety a'r cyfleusterau yn yr ardal Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasod (CAMHS) yn y Ganolfan i Blant, Ysbyty Dewi Sant. Roedd y bobl ifanc i gyd yn aelodau o Fwrdd Ieuenctid BIP CAF neu Gyngor Ieuenctid Cyngor Caerdydd, yr oedd gan y rhan fwyaf ohonynt hefyd brofiad personol o'r gwasanaeth CAMHS.

Dywedwyd wrth y grŵp bod y tîm CAMHS wrthi'n ceisio gwneud gwelliannau i'r amgylchedd ac y câi'r wybodaeth a gasglwyd o'r sesiwn ei defnyddio fel sail ar gyfer gwneud cynnig i Banel Cynigion Loteri'r Staff.

Yn dilyn y sesiwn, lle cafodd yr amgylchedd presennol ei asesu a'i adolygu, gwnaed awgrymiadau gan y grŵp ynghylch sut y gellid gwella'r profiad amgylcheddol. Roedd y grŵp hefyd yn barod i gyfarfod eto yn y dyfodol i helpu i ddewis lliwiau a dodrefn, rhywbeth a fyddai'n werthfawr iawn ym marn y tîm CAMHS, gan sicrhau bod y gwagle'n cael ei wella yn unol â disgwyliadau'r sawl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Darparwyd cyllid i ailaddurno'r ardal CAMHS a gosod ffilmiau ffenestri a phaneli ffenestri yn y drysau yn y Ganolfan i Blant. Disgwylir bod oddeutu 600 o blant sy'n agored i niwed yn defnyddio'r gwasanaeth bob blwyddyn. Bydd y gwelliannau hyn i'r amgylchedd gwasanaeth yn helpu'r bobl ifanc hyn i deimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus pan fyddant yn datgelu eu teimladau personol a'u profiadau anodd, gan gael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd meddwl a'u lles emosiynol.

Record Sengl Nadolig Hijinx

Hijinx yw un o brif gwmnïau theatr cynhwysol Ewrop, sy'n anelu at sicrhau cydraddoldeb drwy greu gwaith celfyddydol gwych gydag actorion anabl a/neu awtistig. Mae'r cwmni proffesiynol yn perfformio gwaith o fri mewn amrywiaeth o leoliadau, yn y DU a thramor.

Ledled Cymru, mae Academiâu Hijinx yn darparu hyfforddiant drama proffesiynol ar gyfer 70 o actorion talentog unigryw, sydd â chyflyrau amrywiol fel Syndrom Down, Awtistiaeth a Syndrom Asperger. Mae'r cwmni hefyd yn cynnal ystod o weithgareddau cymunedol a rhaglenni hyfforddiant corfforaethol.

Rhodddwyd cyllid i noddi Hijinx a'i fand mewnol cynhwysol, Vaguely Artistic, i allu creu record sengl Nadolig elusennol ar gyfer 2020. Gwnaeth y band weithio gydag oedolion a phobl ifanc anabl a/neu niwrowahanol ar y sengl sydd hefyd yn darparu cyfleoedd pellach i godi arian ar gyfer prosiectau cymunedol eraill Hijinx. Gyda chymorth ysgrifennwr caneuon proffesiynol, cafodd y record sengl ei hysgrifennu, ei chyfansoddi a'i recordio gan y cyfranogwyr, a wnaeth ffilmio fideo cerddoriaeth hefyd, a ryddhawyd wrth ochr y record sengl ar gyfer Nadolig 2020.



Gweithgarwch Cleifion - iPads a blociau therapi rhithwir

Mae'r Ganolfan i Blant yn Ysbyty Dewi Sant, fel llawer o adrannau eraill, wedi gorfod addasu yn ystod y pandemig COVID-19. O ganlyniad i'r risg o haint a throsglwyddo, ni allai'r plant a oedd yn mynychu'r ganolfan chwarae gyda theganau ffisegol felly bu'n rhaid i staff edrych ar ddulliau eraill o ddiddanu'r plant ac ymgysylltu â hwy.

Rhodddwyd cyllid i brynu dau iPad i'r Ganolfan i Blant a fyddai'n rhoi cyfle i'r plant a fynychai'r ganolfan chwarae gemau. Byddai'r iPads hefyd yn galluogi aelodau o staff i chwarae cerddoriaeth i'r plant a allai helpu i leihau gorbryder a chreu amgylchedd cadarnhaol i'r cleifion sy'n defnyddio'r ganolfan. Byddai cael mynediad i'r llechi hyn hefyd yn galluogi aelodau o staff i gynnal blociau therapi rhithwir, lle gallai therapyddion ddangos ymarferion a chwarae gyda'r plant yn rhithwir.



Galwyr i Gleifion

Mae'r Adran Cleifion Allanol Offthalmoleg yn Ysbyty Athrofaol Cymru yn uned hynod brysur sy'n cynnig clinigau i ystod eang o gleifion, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn hen ac yn dod yng nghwmni perthnasau. Yn ystod y pandemig COVID-19, gwnaeth yr adran leihau capasiti eu hardal aros, a oedd yn golygu mai dim ond nifer gyfyngedig o gleifion allai fod yno ar unrhyw un adeg.

Yn 2020, cyflwynwyd system alw yn y BIP a fu'n llwyddiannus iawn yn un o'r unedau llawfeddygol. Rhoddwyd arian i gaffael, darparu a gosod system alw i gleifion yr adran. Mae'r offer yn hawdd i'w ddefnyddio, a chaiff y galwyr eu rhoi i'r cleifion sy'n gynnwys i'w hapwyntiadau, ac y gofynnir iddynt aros yn y cyntedd neu yn ardal Glan-y-Llyn yn YAC. Defnyddir y galwyr i hysbysu'r claf i ddychwelyd i'r clinig bum munud cyn eu hapwyntiad a drefnwyd. O ganlyniad i ganllawiau ynghylch cadw pellter cymdeithasol, bydd y system yn helpu i wella llif y clinig a diogelwch cleifion a staff.



Ffiseg Feddygol - Gosod teledu yn ardal aros y cleifion

Gall rhoi ffynonellau eraill o adloniant i gleifion yn ystod eu hamser yn y clinigau a'r adrannau fod o fudd i'w hiechyd meddwl a'u lles. Gall eitemau fel setiau teledu fod yn rhywbeth cadarnhaol all dynnu sylw cleifion sy'n aros am driniaethau a llawdriniaethau, a gallant hefyd roi rhywbeth i gleifion a pherthnasau ei drafod, sydd, unwaith eto, yn gallu lleihau straen.

Rhoddwyd cyllid i'r Adran Ffiseg Feddygol yn Ysbyty Athrofaol Cymru i gaffael a darparu teledu newydd i'r ardal aros i gleifion yn yr adran. Byddai hyn yn rhoi ffynhonnell amgen o symbyliad gwybyddol ac adloniant i'r cleifion, sy'n bwysig iawn o ganlyniad i'r buddiannau mae'n eu cyflwyno. Mae'r buddiannau hyn yn cynnwys rhoi rhywbeth i'w drafod, lleihau gorbryder a galluogi cleifion i fod yn fwy gweithredol yn wybyddol. Bydd hyn yn helpu i wella iechyd meddwl a lles cleifion, a bydd hefyd yn cyfrannu at eu hadferiad a'u proses adsefydlu.

Yr Adran Ffisiotherapi yn YALI - Addysg i Gleifion ac Offer Campfa

Yn unol â llywodraethu clinigol da, mae adran Ffisiotherapi Ysbyty Athrofaol Llandochoau (YALI) yn ymgeisio'n barhaus i ddarparu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ddarparu triniaethau, er mwyn gwella gofal a phrofiad y cleifion mewn sefyllfaoedd unigol ac mewn grwpiau. Mae ymchwil ar sail tystiolaeth, canllawiau NICE a chanllawiau clinigol yn dangos pa mor effeithiol yw therapi ymarfer corff ac addysg o safbwynt triniaeth ac adferiad ar gyfer ystod eang o batholegau ac myriadau ar ôl llawdriniaeth.



Fodd bynnag, mae rhai opsiynau triniaeth wedi'u cyfyngu gan yr ystod o offer sydd ar gael i glinigwyr YALI, sy'n effeithio ar brofiad personol claf o'i adferiad. O ganlyniad, mae'r Adran Ffisiotherapi wedi datgan y bydd amrywiaeth ehangach o offer ymarfer corff, fel y system TRX yn galluogi'r therapyddion i herio eu cleifion ymhellach, gan wella eu hadferiad corfforol a gweithredol.

Awgrymodd yr adran hefyd y byddai'r broses o addysgu cleifion, myfyrwyr a staff mewn meysydd fel biomecaneg y corff yn gallu cael ei gwella ymhellach drwy ddefnyddio cymhorthion gweledol fel sgerbydau a modelau cymalau. Bydd cael mynediad at gymhorthion gweledol yn gwella'r broses o ddarparu gwybodaeth ac yn meithrin gwell dealltwriaeth o gwynion, gan rymuso cleifion i barhau â'u cynnydd yn dilyn eu triniaeth, drwy ddulliau hunanreoli effeithlon.

Rhodddwyd cyllid i gaffael a darparu modelau cymhorthion gweledol a Phecyn Clwb Hyfforddiant TRX i wella gofal a phrofiad cleifion ymhellach. Bydd gwella addysg a rhoi ystod eang o offer ymarfer corff i gleifion yn helpu i hyrwyddo ffordd o fyw iach ac egniol, gwell hunanreolaeth, ac yn helpu i wella proses bontio'r claf o'r ysbyty i ofal yn y gymuned. Bydd y gwelliannau hyn hefyd yn helpu i rymuso cleifion, gan roi'r hyder a'r addysg sydd eu hangen arnynt i ddefnyddio gwasanaethau cymunedol yn effeithlon, fel y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff yn ystod eu hadferiad.

Offer Therapi Synhwyrdd a Dodrefn i Wella ac Atgyfnerthu Ymagwedd Holistaidd at Ofal Dementia

Mae'r Adran Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Pobl Hŷn yn gweithio ar draws pum ward cleifion mewnol mewn modd organig a gweithredol. Mae'r rhan fwyaf o gleifion mewnol wedi cael diagnosis o ddementia ac ar gamau gwahanol o'r cyflwr. Mae'r adran yn deall bod gofal sy'n canolbwyntio ar y claf wrth wraidd eu hethos, ac maent hefyd wedi canfod bod dull synhwyrdd wedi bod yn werthfawr tu hwnt gyda chleifion yn ystod camau hwyrach dementia.

Rhodddwyd cyllid i gaffael a darparu offer therapi synhwyrdd i'r adran, ynghyd â dodrefn i wella ac atgyfnerthu ymagwedd holistaidd at ofal dementia. Gall therapi synhwyrdd helpu i wella natur wybyddol a gweithrediad dyddiol, meithrin hyder i gymryd rhan yn gymdeithasol, gwella'r gallu i ganolbwyntio a helpu gyda sgiliau cyfathrebu. Mae'r rhain i gyd yn feysydd o fywyd y gall heriau dementia effeithio arnynt mewn ffordd negyddol, felly gall symbylu meddyliol a chorfforol, ynghyd â therapi hel atgofion fod yn ffordd wych o helpu cleifion sydd â dementia i ailafael yn eu hannibyniaeth a'u rheolaeth. Felly, bydd yr eitemau hyn yn gwella'r gofal i gleifion yn sylweddol, yn cynnwys y cleifion hynny sydd â symudedd cyfyngedig neu ddim symudedd.

Ymgyrch We Wear the Same Shirt

Mae We Wear the Same Shirt (WWtSS) yn brosiect iechyd meddwl/gweithgarwch corfforol cenedlaethol a arweinir gan Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru (FAW). Wedi'i lansio yn 2015 gyda chyllid gan Chwaraeon Cymru, roedd y fenter yn rhoi'r cyfle i bobl â chyflyrau iechyd meddwl gymryd rhan mewn gweithgareddau pêl-droed mewn amgylchedd cynhwysol, gyda chyfleoedd cofleidiol i adeiladu rhwydwaith/grŵp cymorth cymdeithasol i helpu eu hadferiad yn y lleoliadau roeddent yn eu mynychu. Daeth y cyllid gwreiddiol i ben yn 2017, ac mae'r prosiect bellach yn cael ei ddarparu ar draws saith ardal bwrdd iechyd rhanbarthol gyda grant bach gan UEFA. O fewn ardal BIP Caerdydd a'r Fro, caiff grŵp o Gaerdydd ei gynnal gan Glwb Pêl-droed Metropolitan Caerdydd. Hoffai'r BIP ddatblygu a chynnal y grŵp hwn a lansio ail grŵp gyda Bro Morgannwg.

Darparwyd cyllid i gefnogi'r ehangiad hwn a thalu am unigolion sydd â chyflyrau iechyd meddwl i gymryd rhan yn y sesiynau WWtSS am ddim am flwyddyn, gan gefnogi clybiau partner i dalu am gyfleusterau, staff, offer a hyfforddiant yn ystod y cyfnod hwn. Bydd y prosiect yn cynnwys pobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl, gan roi'r cyfle iddynt wneud ymarfer corff, gwneud ffrindiau a rhannu problemau/llwyddiannau/profiadau. Bydd hyn yn rhoi buddion gwerthfawr i iechyd corfforol a meddyliol a lles y cyfranogwyr a hefyd yn eu grymuso a'u haddysgu i barhau i fyw bywyd iach ac egniol.

O ganlyniad i gyfyngiadau ynghylch y pandemig COVID-19, mae'r prosiect hwn wedi cael ei atal dros dro hyd nes ei bod yn ddiogel ac yn briodol ei weithredu yn unol â'r canllawiau diweddaraf a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.



Er budd staff a gwirfoddolwyr

Mae'r enghreifftiau isod yn dangos sut mae'r arian wedi cael ei wario er budd staff a gwirfoddolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Gwella'r Gegin i Staff a'r Amgylchedd Seibiant

Caiff yr ystafell i staff o fewn y brif Adran Ffisiotherapi yn YAL ei defnyddio gan hyd at 50 aelod o staff y dydd. Cafodd gwasanaethau therapi eu trosglwyddo i'r ardal yn 1998, gan gymryd y cyfleusterau ystafell staff presennol drosodd, a ddefnyddiwyd yn flaenorol gan staff theatr. Dros amser, mae'r ystafell wedi dechrau edrych yn hen, wedi treulio, ac yn anaddas at y diben, ac nid oes digono le yno ar gyfer yr aelodau staff i gyd oherwydd ei strwythur presennol.

Rhodddwyd cyllid i adnewyddu'r ystafell staff, gan gael gwared ar y llawr, y nenfwd a'r dodrefn presennol a rhoi rhai newydd, hawdd eu glanhau yn eu lle. Bydd y gwaith adnewyddu hwn yn moderneiddio'r hen ystafell staff dreuliedig, gan roi mwy o le o fewn y gwagle llawr presennol i allu denu a darparu ar gyfer staff newydd a phresennol. Mae hyn hefyd yn dangos bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn gofalu am ei aelodau staff, ac yn darparu amgylchedd dymunol i'r staff, ac un y gallant ymfalchio ynddo. Gallai hefyd gyfrannu'n gadarnhaol at les a chynhyrchiant staff, a bodlonrwydd o ran swydd, gan arwain at ofal cleifion gwell a mwy effeithlon.

Laniardiau i staff sydd wedi'u heithrio rhag gwisgo masg

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cydnabod bod staff o fewn y sefydliad sydd ag anableddau neu gyflyrau iechyd sy'n eu hatal rhag gallu gwisgo masg yn unol â'r canllawiau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru y dylai pob unigolyn wisgo masg yn ystod y pandemig COVID-19. O ganlyniad, mae aelodau o staff na allant wisgo masg wedi cael eu herio gan aelodau eraill o staff ac aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys cleifion, ynghylch peidio â gwisgo masg.



Rhodddwyd cyllid, ar gais Adran y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, i gaffael a darparu laniardiau i oddeutu 220-250 o staff, yn nodi nad yw'n ofynnol iddynt wisgo masg mewn ardaloedd lle nad yw PPE yn ofynnol. Drwy wisgo laniard yn cynnwys y wybodaeth hon, wedi'i addurno ag emblem blodyn yr haul, bydd staff yn teimlo'n fwy hyderus yn eu gwaith, a bydd yn lleihau eu gorbryder ynghylch cael eu herio, gan eu helpu i fwynhau eu swydd a chynyddu eu cynhyrchiant o ganlyniad. Bydd cael y laniardiau hyn hefyd yn helpu i dawelu meddyliau staff a chleifion, a fydd yn helpu i wella iechyd a lles y staff sy'n eu gwisgo a phobl o'u cwmpas yn sylweddol.

Moderneiddio ystafell seibiant staff theatrau plant, gan gynnwys nwyddau gwynion, setiau teledu ar gyfer ardaloedd ystafelloedd aros i gleifion DOSA ac Ystafell 18.

Mae'r Uned Arhosiad Byr Llawfeddygol (SSSU) yn gweld llawer o gleifion o arbenigeddau llawfeddygol gwahanol yn cynnwys y llif achosion brys. Fel rhan o'r gwaith addasu i'r Ganolfan Trawma Mawr, bydd nifer y staff sy'n defnyddio ardaloedd seibiant o fewn SSSU yn cynyddu'n raddol. Yn anffodus, nid yw'r ystafell staff yn SSSU yn addas i'r diben mwyach, gan fod y mwyafrif o'r cyfarpar yn yr ystafell bellach wedi torri neu nid oes modd ei adnewyddu. Byddai'r ardal hon, ynghyd ag ardaloedd aros i gleifion Ystafell 18 a'r adran Diwrnod Derbyniadau Llawdriniaeth (DOSA) oll yn elwa ar gael eu moderneiddio a'u diweddarau.

Rhodddwyd cyllid felly i gaffael a darparu amrywiaeth o offer ar gyfer yr ystafell staff fel micro-donnau, tostwyr, oergell, teledu a gosodiadau erial. Roedd angen cyllid hefyd i gaffael a darparu setiau teledu a gosodiadau erial ar gyfer ardaloedd aros i gleifion Ystafell 19 a DOSA. Bydd ychwanegu'r darnau newydd hyn o offer yn cyfrannu'n gadarnhaol at les cleifion a staff yn ogystal â gwella profiad cyffredinol y claf. Bydd hefyd yn helpu i wella cynhyrchiant staff a bodlonrwydd o ran swydd, a fydd yn arwain at ofal gwell a mwy effeithlon i gleifion.

Ardal Ddiogel i Gadw Beiciau - Ysbyty Athrofaol Llandochoau

Nid oedd yr hen gyfleusterau cadw beiciau yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau yn addas at y diben mwyach. Nid oeddent yn ddiogel ac nid oedd cysgod drostynt. Gan fod niferoedd cynyddol o staff yn defnyddio beiciau i gymudo i'r gwaith, nododd yr uned Ffeibrosis Systig yn yr ysbyty a nifer o adrannau eraill eu diddordeb mewn gwella'r cyfleusterau hyn.

Rhodddwyd cyllid felly i gaffael, darparu a gosod ardal ddiogel newydd ar gyfer cadw beiciau yn lle'r hen gyfleusterau yng nghefn y safle. Mae darparu cyfleuster gwell ar gyfer cadw beiciau yn sicrhau y bydd y beiciau'n cael eu cadw'n ddiogel yn ystod oriau gwaith, ac yn annog teithio llesol a chynaliadwy. Mae hyn yn lleihau problemau parcio ac allyriadau aer, a hefyd yn gwella iechyd meddwl a chorfforol a lles staff. Byddai'r ychwanegiadau felly yn gweithio'n unol â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru Gydnherth, Iachach Chymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang'.



Gwelliannau i'r Ystafell Staff, Seddi

Mae'r ystafell staff o fewn y Ward Seahorse yn darparu ar gyfer dwy ardal glinigol ac yn cael ei defnyddio'n rheolaidd gan nifer o aelodau gwahanol o'r tîm amlddisgyblaethol. Mae'r tîm yn gweithio ar uned sy'n symud yn gyflym gyda throsiant uchel o staff sy'n gofyn iddynt fod ar eu traed am gyfnodau hir o amser. Mae'r ystafell staff yn cynnwys hen ddodrefn sydd wedi'i staenio, a gafwyd o ward arall pan oedden nhw'n cael gwared ar eu dodrefn.

Rhodddwyd cyllid i gaffael a rhoi dodrefn newydd, wedi'i ddiweddarau i staff er mwyn cymryd lle'r hen ddodrefn, gan wneud yr ystafell staff yn amgylchedd pleruserus i staff, ac yn un y gallent ymfalchïo ynddo. Gallai hefyd gyfrannu'n gadarnhaol at les a chynhyrchiant staff, a bodlonrwydd o ran swydd, gan arwain at ofal cleifion gwell a mwy effeithlon.

Loceri Staff Tair Haen

Mae'r Adran Therapi Galwedigaethol wedi cael ei hadleoli'n ddiweddar o Ysbyty Rookwood i Ysbyty Dewi Sant, felly mae wedi gweld cynnydd yn nifer y staff yn yr adran. Roedd hyn o ganlyniad i adleoli a symud staff mewn ymateb i'r pandemig COVID-19 a gwaith parhaus yn adnewyddu ardaloedd anghlinigol eraill sydd wedi effeithio ar y gwasanaeth.

Rhodddwyd cyllid i gaffael a darparu loceri i staff yr adran eu defnyddio i gadw eu heiddo personol yn ystod oriau gwaith. Byddai'r loceri yn gwella'r cyfleusterau gweithio presennol a'r amgylchedd therapi yn sylweddol, drwy greu digon o ardal storio i'r staff gadw eu heitemau personol yn ddiogel. Byddai'n tacluso'r gwagle presennol, yn cynyddu diogelwch, ac yn rhyddhau lle yn yr ardal lle yr arferid cadw eiddo personol, gan wneud yr ardal therapi asesu yn fwy hygyrch i gleifion. Gallai hefyd gyfrannu'n gadarnhaol at les a chynhyrchiant staff, a bodlonrwydd o ran swydd, gan arwain at ofal cleifion gwell a mwy effeithlon.

Prosiect Lles Staff 8 o oleuadau LED

Mae'r Uned Achosion Brys o fewn y Gyfarwyddiaeth Achosion Brys a Meddygaeth Aciwt yn profi cyfnod o newid ar hyn o bryd, mewn perthynas â'r Ganolfan Trawma Mawr sydd ar ddod yn BIP Caerdydd a'r Fro. O ganlyniad i natur yr Uned Achosion Brys, mae staff yn aml yn gorfod delio â phrofiadau hynod anodd a thrawmatig. O ganlyniad i lansio'r Ganolfan Trawma Mawr, byddant yn ymwneud yn fwy â'r mathau hyn o sefyllfaoedd. Felly, mae'n hanfodol bod gan staff ardal briodol sy'n eu galluogi i ymlacio a chymryd seibiant. Fel rhan o'r newidiadau strwythurol, mae ystafell staff yr adran wedi cael eu hadleoli i'r twneli ar y llaw daear isaf, a bydd yn darparu ar gyfer amrywiaeth o staff o'r Uned Llawfeddygol, Uned Asesu a Phediatreg.

Er bod yr ystafell hon yn fwy na'r ystafell staff flaenorol, nid oedd gan yr ystafell unrhyw olau naturiol. Mae profiad wedi dangos bod gan bobl fwy o gymhelliant yn eu gwaith pan fyddant yn dod i gysylltiad â golau haul naturiol neu artiffisial. Nodir hefyd y gall staff gael lles corfforol a meddyliol gwell, gwell patrymau cysgu a mwy o fodlonrwydd o ran eu swydd ym mhresenoldeb golau haul.

Rhodddwyd cyllid i gaffael, darparu a gosod goleuadau nenfwd LED sy'n efelychu golygfa awyr agored a fydd yn darparu golau artiffisial i'r amgylchedd. Bydd hyn o fudd mawr i staff oherwydd bydd yn gwella eu bodlonrwydd o ran eu swydd a'u cynhyrchiant hefyd, a allai arwain at greu canlyniadau gwell i gleifion. Bydd hyn hefyd yn helpu i wella iechyd a lles meddyliol a chorfforol aelodau o staff sy'n defnyddio'r ystafell.

Cynllun Ceisiadau Llwybr Carlam

Derbyniwyd 56 cynnig drwy'r Cynllun Llwybr Carlam yn 2020 gyda chyfanswm o 159 ers i'r cynllun gael ei gyflwyno. Mae'r Cynllun Llwybr Carlam wedi bod yn llwyddiannus iawn am ei fod yn darparu cyllid sydd gwir ei angen ar ymgeiswyr, hyd at £250, mewn ffordd gyflym ac effeithlon.

Isod ceir ychydig o enghreifftiau sy'n dangos sut mae'r arian wedi cael ei wario drwy'r Cynllun Llwybr carlam i fod o fudd i gleifion a staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Eitemau Brys i Gleifion Mamolaeth

Yn ystod y pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau symud, cafodd siopau a oedd yn darparu eitemau nad oeddent yn hanfodol eu cau ac ni allai archfarchnadoedd werthu dillad. Rhoddwyd cyllid i Uned Mamolaeth Ysbyty Athrofaol Cymru i ddarparu eitemau dillad hanfodol i famau newydd ar gyfer eu babanod newydd anedig.

Gwnaeth darparu'r cyflenwadau hanfodol hyn i fenywod na allent eu cael yn unman arall, neu nad oedd cyfle ganddynt i'w cael yn ystod y cyfyngiadau symud, helpu i leihau eu straen a'u gorbryder, gan alluogi'r mamau newydd hyn yn edrych yn ôl ar y cyfnod pwysig hwn yn hapus.

Gwella Gerddi Iard Ysbyty'r Barri

Mae gan Ysbyty'r Barri bedair iard fewnol a ddefnyddir gan ymwelwyr â chleifion a staff. Mae planhigion sefydledig a gwelyau blodau yn yr iardiau hyn ac roedd staff am wella ymddangosiad y gwelyau blodau. Darparwyd cyllid i brynu dwy dunnell o Lechi Porffor Cymru i ychwanegu at y gwelyau blodau i orchuddio'r pridd. Mae ychwanegu'r llechi yn lleihau'r gwaith cynnal a chadw parhaus a'r costau, yn ogystal â gwella ymddangosiad ardaloedd yr iardiau, gan wella iechyd a lles ymwelwyr o ganlyniad.



Offer Ymarfer Corff ar gyfer Ward Sant Barruc

O ystyried profiadau blaenorol, roedd Ward Sant Barruc yn Ysbyty'r Barri wedi canfod bod sicrhau bod unigolion yn gwneud ymarfer corff yn rheolaidd yn dwyn buddiannau niferus o safbwynt eu hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol, gwella eu hwyliau a hefyd cynnal eu lefelau gweithgarwch a'u hannibyniaeth. Darparwyd cyllid i gaffael a darparu offer ymarfer corff ar gyfer yr adan er mwyn sicrhau bod eu cleifion mewnol yn gwneud ystod o ymarferion corff personol. Bydd defnyddio'r darnau hyn o offer fel bandiau ymwrthedd, offer codi pwysau a beltiau pwysau yn helpu cleifion i wella eu lefelau ffitrwydd, meithrin mwy o hyder a bydd yn cael effaith gadarnhaol ar eu sgiliau cymdeithasol a'u hanghenion.

Ffioedd Hyfforddiant ar gyfer Anhwylder Ymwybyddiaeth Cyfnod Estynedig

Mae'r Gwasanaeth Niwroadsefydlu yn Ysbyty Rookwood yn darparu asesiad ac ymyriad gwasanaeth arbenigol i gleientiaid sydd ag anhwylder ymwybyddiaeth cyfnod estynedig yn dilyn anaf i'r ymennydd. Darparwyd cyllid i alluogi tri aelod o'r tîm amlddisgyblaethol i fynychu cwrs hyfforddiant rhithwir i ddiweddarau mynychwyr ynghylch y canllawiau newydd a ryddhawyd gan Goleg Brenhinol y Meddygon. Mae darparu cyllid ar gyfer yr hyfforddiant yn galluogi'r adran i wella eu sgiliau a'u gwybodaeth, gwella gofal cleifion a bodddhad o ganlyniad.

Gwobrau Cydnabyddiaeth Staff

Ar 21 Awst 2020, cynhaliodd y Bwrdd Clinigol Meddygaeth (MCB) ddiwyddiad Gwobrau Cydnabyddiaeth Staff MCB i ddiolch i staff am eu cyfraniad gwerthfawr yn gweithio yn y Bwrdd Clinigol Meddygaeth.

Gan fod 2020 wedi bod yn flwyddyn hynod heriol, roedd y Bwrdd Clinigol Meddygaeth am gydnabod gwaith caled eu staff a chydabod unigolion a oedd wedi disgleirio a gwneud gwahaniaeth.

Rhodddwyd cyllid i roi tlysau a gwobrau diolch i'r enillwyr a'r sawl yn y rownd derfynol ym mhob un o 11 o gategoriâu'r gwobrau, yn ogystal â galluogi'r Bwrdd Clinigol i ddarparu lluniaeth ar gyfer y digwyddiad. Gwnaeth y digwyddiad hwn helpu i ddangos gwerthfawrogiad ar gyfer y gwaith caled a'r diwydrwydd a ddangoswyd gan staff drwy gydol y flwyddyn, gan helpu i wella bodlonrwydd o ran swyddi a gofal i gleifion ar yr pryd.



Adnoddau Ardal Staff

Darparwyd cyllid i alluogi nifer o ardaloedd staff i gael eu hadnewyddu a'u diweddarau gyda dodrefn ac offer cegin newydd a gwell. Cafodd hyn, ynghyd ag adnoddau eraill a ddarparwyd, effaith gadarnhaol iawn ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl staff ac o ganlyniad, bydd yn helpu i wella gofal cleifion.

Ymhlith yr adrannau a wnaeth gais am yr eitemau hyn mae Canolfan Orthopedig Caerdydd a'r Fro, y Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn, Uned Rhydlafar yn Ysbyty Dewi Sant, Ward Gorllewin 1 yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau, Iechyd Plant Cymunedol, Ward Ash yn Hafan y Coed, Cynllun Gwên yn Nhreforest, Adran Ffisiotherapi Pediatrig, Tîm Deintyddol OSCAR yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau a'r Uned Sterileiddio a Diheintio Deintyddol yn Ysbyty Athrofaol Cymru.

Set pen realiti rhithwir ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn

Rhodddwyd cyllid i'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn i brynu Set Pen Realiti Rhithwir ar gyfer yr adran. Mae gan dechnoleg Realiti Rhithwir lawer o raglenni a gellir eu defnyddio i wella iechyd ac ansawdd bywyd cleifion yr adran, yn enwedig cleifion sydd â dementia a chlefyd Alzheimer.

Roedd staff Therapi Galwedigaeth wrth eu boddau i gael y dechnoleg hon ar gyfer eu cleifion, yn enwedig yn ystod y pandemig COVID-19 pan na allai cleifion gael ymwelwyr. Gall y cleifion ddefnyddio'r setiau pen Realiti Rhithwir i ail-fyw profiadau fel gemau pêl-droed, triplau i'r theatr a llawer o sefyllfaoedd eraill y gall y dechnoleg eu cynnig.



Rhodddwyd chwaraewr recordiau i'r adran hefyd, seinydd diwifr a chlustffonau y gellir eu defnyddio yn ystod sesiynau therapi hel atgofion a galwadau fideo gartref yn ystod cyfnodau dim ymwelwyr.

Pam ddylech CHI gefnogi'r Loteri'r Staff!

Mae Panel Cynigion Loteri'r Staff yn ymdrechu i gyflawni'r saith nod lles a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ynghyd â defnyddio'r pum dull o weithio; hirdymor, atal, integreiddio, cydweithredu a chynnwys.

Drwy ymuno â Loteri'r Staff, rydych yn cefnogi ystod eang o brosiectau a ariennir gan y Panel Cynigion, sy'n gwella gwasanaethau niferus ar draws y BIP. Drwy'r cyllid hwn, rydych yn helpu'r Panel Cynigion a'r Elusen Iechyd i wella pethau i'n staff a'n cleifion, gan ein helpu ni i gyd i gydweithio i greu Cymru Lewyrchus, Iachach a Chydnerth.

Os hoffech ymuno â Loteri'r Staff, gellir cwblhau ffurflenni cais [yn electronig](https://healthcharity.wales/hospital-staff/staff-lottery/) neu drwy ein gwefan; <https://healthcharity.wales/hospital-staff/staff-lottery/>. Dychwelwch ffurflenni Loteri'r Staff wedi'u cwblhau at fundraising.cav@wales.nhs.uk. Os hoffech wneud cais am gyllid gan Banel Cynigion Loteri'r Staff, cysylltwch â'r cyfeiriad uchod i gael manylion.

Mae Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yn eich annog i ymuno â Loteri'r Staff a gwneud cais am gyllid, sy'n gallu gwella eich adran neu wasanaeth a hysbysu eraill am fuddiannau ymuno â Loteri'r Staff. A phwy a yr, efallai mai chi fydd ein henillydd nesaf?